ARCHWILIO CYFRIFON

**Hysbysir trwy hyn, yn unol ag adran 40 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, fel y'u diwygiwyd,**

1. **o ddydd Mawrth 26 Medi 2023 i ddydd Gwener 29 Medi 2023, ac o ddydd Llun 2 Hydref 2023 i ddydd Gwener 6 Hydref 2023, ac o ddydd Llun 9 Hydref 2023 i ddydd Gwener 13 Hydref 2023, ac o ddydd Llun 16 Hydref 2023 i ddydd Gwener 20 Hydref 2023 ac o ddydd Llun 23 Hydref 2023, rhwng 9.00am a 4.30pm, o dan adran 30 (1) o'r Ddeddf uchod, y gall unrhyw berson â diddordeb, ar ôl gwneud cais i'r Prif Swyddog Cyllid, Ystafell 152, Guildhall, Abertawe, archwilio Cyfrifon Dinas a Sir Abertawe, Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a gwneud copïau ohonynt, yn ogystal â'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n ymwneud â hwy.**

2. **O dan adran 30(2) o'r Ddeddf uchod, ar neu ar ôl dydd Mawrth 24 Hydref 2023 am 9.00am yn Guildhall, Abertawe, bydd Archwilydd Penodedig y cyngor, Archwilydd Cyffredinol Cymru, neu ei gynrychiolwyr, ar gais unrhyw Etholwr Llywodraeth Leol sy'n ymwneud â'r Cyfrifon, yn rhoi cyfle i'r Etholwr neu ei gynrychiolydd ei holi am y cyfrifon, a gall unrhyw Etholwr o'r fath neu ei gynrychiolydd ddod gerbron yr archwilydd a gwrthwynebu unrhyw un o'r Cyfrifon.**

3. **Mae'n rhaid i unrhyw Etholwr roi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i'r Archwilwyr o unrhyw wrthwynebiad arfaethedig a'r rhesymau dros ei wneud (yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005). Ar yr un pryd, cyflwynir copi i Brif Weithredwr y cyngor.**

4. **Nid yw hyn yn rhoi hawl i unigolyn archwilio unrhyw gyfrifon neu ddogfennau eraill y cyfeirir atynt ym Mharagraff 1 uchod i'r graddau y mae'r cyfrifon neu'r dogfennau hynny'n cynnwys gwybodaeth bersonol, fel a ddiffinnir gan adran 30 (4) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, neu sy'n mynnu bod unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei datgelu mewn ymateb i unrhyw gwestiwn.**

5. **O dan adran 31(1), mae gan Etholwyr hawl i fynd gerbron yr Archwilydd, yn ystod cyfnod o'r diwrnod a bennwyd i gwblhad yr archwiliad, i gyflwyno gwrthwynebiadau i unrhyw fater y gallai'r Archwilydd gymryd camau gweithredu ar ei gyfer o dan adran 32 (cais am ddatganiad bod eitem o gyfrif yn groes i'r gyfraith) neu y gallai'r Archwilydd lunio adroddiad mewn perthynas ag ef o dan adran 22 (adroddiadau er budd y cyhoedd).**

**Dylid anfon yr hysbysiad o wrthwynebiad neu wrthwynebiad posib at Derwyn Owen, Swyddfa Archwilio Cymru, 1 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ**

**Dyddiedig 25 Medi 2023**

***Debbie Smith, Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol***